Cofnodion o Bwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 11eg Ionawr yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Hugh Towns, Cyng Pamela Steane Price, Cyng Colin Jenkins, Cyng Fran Murphy, Mr Des Davies, Swyddog Technegol. Mr Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Cyng Paul Faulkner, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Roy Davies, Cyng Richard Wallace, Cyng Ros Bellamy

6674/ Ionawr / 06 Ceisiadau Cynllunio i'w Hystyried:

(i) E/11943 ADEILADU YSTAFELL WYDR UN LLAWR YN 6, FFORDD CAERFYRDDIN
Dim gwrthwynebiadau

(ii) E/11916 DIWYGIO CAIS E/10621 CYMERADWYWYD 1.12.05 DIWYGIO UNED 2, 3 ANHEDDLE YN Y CYN FAES PARCIO YN Y CEFN, TREFNIADAU NEWYDD I'R FYNEDFA AC ALLANFA NEWYDD
Dim gwrthwynebiadau

(iii) E/11918 ADDASU'R CARTWS PRESENNOL YN LLETY AR GYFER STAFF, CEGIN, MAN I FWYTA BRECWAST, DERBYNFA, TOILED YN SALUTATION INN, HEOL NEWYDD
Dim gwrthwynebiadau

6675 / Ionawr / 06 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio
Caniatawyd y ceisiadau canlynol gan y Cyngor Sir:

(i) E/11321 NEWID DEFNYDD I DDEFNYDD CYMYSG O FANWERTHU A BAR GWERTHU BYRBRYDAU BWYDYDD CYFLAWN YN 11, HEOL Y BANC

(ii) E/11389 ANHEDDLE PRESWYL (BYNGALO), WRTH YMYL 13, STRYD RHOSMAEN.

(iii) E11707 ESTYNIAD ARFAETHEDIG WEDI'I ADDASU AR GYFER YR ANABL, YN 59, HEOL Y GARREG LAS

(iv) E/11617 MECANWAITH A WEITHIR â PHŴER I DDRWS MEWNOL HSBC, STRYD RHOSMAEN.

6676 / Ionawr / 06 Adrodd ar Ymweliadau Safle

1. E/11708 TIR WRTH YMYL 4, HEOL NEWYDD AR GYFER 2 FYNGALO

Dim gwrthwynebiadau – sylw – Gobeithio fydd y coed sydd ar y llaw dde yn cael eu cadw !

2. E/11767 CYNLLUNIO AMLINELLOL AR BARSEL O DIR YNG NGHEFN CAPEL SALEM, HEOL NEWYDD
Sylwadau – Nid yw'n bosib cael mynediad gan gar neu gerbyd tebyg Pam y cafodd caniatâd cynllunio ei wrthod ar 31.3.94 ?

6677 / Ionawr / 06 Adroddiad ar Lwybrau Troed

Argymhellwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Eirian Davies, perchennog y tir ar hyd llwybr troed Ysgubor Abad yn gwneud ymholiadau ynglŷn â'i fwriadau mewn perthynas â'r rheiliau nad ydynt yn ddiogel, mae Caroline Ferguson o CSC wedi dod â'r mater i'w sylw.

6678 / Ionawr / 06 Trafnidiaeth

Adroddwyd bod y gwaith gwella diweddaraf ar balmentydd Stryd Rhosmaen, yr arhosfan Bysiau wedi'i symud. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Mr Mike James o'r Asiantaeth Cefnffyrdd, yn gofyn iddo wneud yn siŵr fod y cwmnïau bysiau yn parcio eu cerbydau yn y mannau cywir ar hyd y rhan hon o'r ffordd. Hefyd bydd yn gofyn iddo wneud yn siŵr fod yna farciau cywir ar gyfer bysiau a marciau ffordd wrth ymyl Ysgolion yr ardal hon.

6679 / Ionawr / 06 Gohebiaeth

- Gwasanaethau Cynllunio CSC - Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio mewn perthynas ag Apêl 'Knead the Dough Bakery' a gafodd ei wrthod.
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Rhybudd o waith atgyweirio sydd i'w wneud yn y dyfodol. Mae hyn i gynnwys torri rhai coed. Fe fydd yna gynllun ail blannu rhyw 9000 o goed er mwyn adfer golygfeydd o'r dirwedd.
- 'Safe Wales' - Asesiad Resg – nodwyd
- Ysgol Gymraeg Teilo Sant – Mr Walters – Llythyr oddi wrth ddisgyblion yn cwyno nad oes yna bwll nofio cyhoeddus. Argymhellir anfon llythyr at y disgyblion yn diolch iddynt, ac anfon copïau ymlaen at y Cynghorydd Sir Ieuan Jones a Mr Mark James, Prif Weithredwr CSC.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm.